**MEMORANDWM GAN Y GWEINIDOG DROS YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH**

**Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU**

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010

# Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch trafnidiaeth dysgwyr a theithio rhatach

## Rhagarweiniad

1. Paratowyd y Memorandwm hwn a gosodwyd ef gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac y mae'n esbonio cwmpas y pŵer a geisir.

2. Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn i'w gael yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ac ym mholisi Llywodraeth y DU a fynegir yn y Papur Gwyn "Llywodraeth Well i Gymru". Yn adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoddir pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar Faterion penodedig. Caniateir ychwanegu Materion at feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Ddeddf Seneddol ei gwneud mewn perthynas â Materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2006.

3. Byddai'r Gorchymyn a gynigir yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fewnosod Mater yn y maes priffyrdd a thrafnidiaeth (sef Maes 10 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006) a thrwy ddiwygio dau eithriad sy'n ymwneud â phriffyrdd a thrafnidiaeth yn Rhan 2 (Eithriadau i Faterion) o Atodlen 5, paragraff A1, i naddu ymaith feysydd cymhwysedd ychwanegol. Bydd y pwerau deddfwriaethol newydd hyn o ran y Materion penodedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aelodau'r Cynulliad neu Bwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr ac yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ynghlwm yn Atodiad A mae copi o Atodlen 5 sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol a gaffaelwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma.

**Y Cyd-destun**

4. Caffaelodd y Cynulliad Cenedlaethol amrediad o swyddogaethau gweithredol ynglŷn â phriffyrdd a thrafnidiaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 2006.

5. Ers hynny, dros gyfnod o flynyddoedd mae pwerau gweithredol pellach wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru mewn amryw o Ddeddfau, gan gynnwys Deddf Trafnidiaeth 2000, Deddf Rheilffyrdd 2005, Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a Deddf Trafnidiaeth Leol 2008. Yn ychwanegol, rhoddwyd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â mater perthynol, sef teithio gan ddysgwyr (Mater 5.10 yn y maes addysg a hyfforddiant), cymhwysedd a defnyddiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i basio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

6. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth diogel ac effeithlon, a fydd yn cynorthwyo datblygiad yr economi ac yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Un o gonglfeini'r gwaith hwnnw yw'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i ddwyn deddfwriaeth gerbron ar drafnidiaeth dysgwyr, a thrwy hynny wella diogelwch dysgwyr wrth deithio yn ôl a blaen i'r ysgol neu fan arall lle y cânt addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn cydweddu â pholisi Llywodraeth y Cynulliad o gwtogi ar ddefnyddio ceir drwy beri bod modd i fyfyrwyr gerdded, seiclo neu fynd ar y bws yn ddiogel, a thrwy hynny leihau nifer y tagfeydd ar y ffyrdd a gwella'r canlyniadau o ran yr amgylchedd, iechyd, y gymdeithas a'r economi.

7. Mae'r cynllun teithio consesiynol yng Nghymru yn darparu teithio di-dâl ar y gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer yr anabl, eu cymdeithion a rhai sydd dros 60 oed. Gweithredir cynllun peilot rheilffyrdd hefyd, sy'n darparu teithio di-dâl i ddeiliaid cardiau cymwys ar reilffyrdd y Gororau a Dyffryn Conwy tan ddiwedd Medi 2010, a rheilffyrdd Calon Cymru a'r Cambria tan 26 Mawrth 2010.

**Y fframwaith deddfwriaethol presennol.**

8. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol o ran "trefniadau i bersonau deithio yn ôl a blaen i'r mannau lle y cânt addysg neu hyfforddiant". Rhoddwyd y cymhwysedd hwn gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008, a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys personau sy'n derbyn addysg feithrin, addysg gynradd, addysg uwchradd neu addysg bellach neu hyfforddiant.

9. Mae eithriadau i'r cymhwysedd hwn, fodd bynnag, a restrir ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Maent yn cynnwys:

- rheoleiddio defnyddio cerbydau modur ar y ffyrdd, eu hadeiladwaith a'u hoffer, a'r amodau a osodir ar eu defnyddio felly (ac eithrio rheoleiddio ynglŷn â Mater 10.1);
- tramgwyddau traffig ffyrdd;
- trwyddedu gyrwyr;
- hyfforddi gyrwyr;
- yswirio cerbydau modur;
- oriau gyrwyr;
- rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig;
- croesfannau i gerddwyr;
- arwyddion traffig;
- trwyddedu gweithredwr cerbydau gwasanaethu'r cyhoedd;
- diogelwch trafnidiaeth;
- cofrestru gwasanaethau bysiau lleol a gosod a gorfodi amodau rheoleiddio traffig mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny.

10. Yr oedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 (OS 2009 Rhif 3006) hefyd yn darparu ar gyfer naddu allan o'r eithriadau sydd ym mharagraff A1, mewn perthynas â Mater 10.1 (codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd), gan fod hynny eisoes o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2010, os cymeradwyir ef gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn cyflwyno naddiad pellach allan o'r eithriad sy'n ymwneud â "rheoleiddio defnyddio cerbydau perthnasol sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu'r amgylchedd".

11.

12. Cyflwynwyd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ar 15 Ebrill 2008 gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a chymeradwywyd ef gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Rhagfyr 2008. Nod y Mesur yw cryfhau'r protocolau ar gyfer ymddygiad da a disgyblaeth ar fysiau ysgol, a darparu cludiant di-dâl i ragor o blant ysgolion cynradd yng Nghymru. Prif elfennau'r Mesur yw:

- Gwella diogelwch
- Fframwaith polisi a fframwaith cyfreithiol cyffredin ledled Cymru
- Eglurder ynghylch cymhwystra ar gyfer cludiant i'r ysgol yn ddi-dâl neu am bris gostyngedig
- Cynaliadwyedd amgylcheddol yn y trefniadau cludo

13. Mae pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â theithio consesiynol wedi eu cynnwys yn adrannau 145B i 152 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae Adran 145B o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Teithio Consesiynol ar Fysiau 2007, yn darparu bod rhaid i weithredwyr gwasanaethau cymwys (sef, ar hyn o bryd, gwasanaethau bysiau lleol) ddarparu consesiynau teithio i ddosbarthiadau penodol o deithwyr, gan gynnwys pobl oedrannus neu anabl.

14. O dan adran 149 o'r Ddeddf mae'n ofynnol bod awdurdodau consesiynau teithio (sef y cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yn ad-dalu i'r gweithredwyr am ddarparu'r consesiynau yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt gyda'r gweithredwyr neu y penderfynwyd arnynt gan yr awdurdodau. Yn ôl adran 149(3), caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy gyfrwng rheoliad:

    - o ynglŷn â phenderfyniadau gan awdurdodau consesiynau teithio ynghylch y symiau sydd i'w talu fel ad-daliad i weithredwyr unigol, neu i unrhyw ddosbarth o weithredwyr;

- ynghylch y dull o wneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus fel ad-daliad i weithredwyr; ac
- ynglŷn ag ar ba delerau, ac i ba raddau, y caniateir i awdurdodau consesiynau teithio gyflogi unrhyw berson i weithredu fel eu hasiant at y diben o wneud taliadau sy'n ddyledus fel ad-daliad i weithredwyr, ac ynglŷn â disgrifiadau o'r personau y caniateir eu cyflogi felly.

15. Y rheoliadau cyfredol yng Nghymru yw Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001:

- Mae rheoliad 3 yn pennu'r amcan cyffredinol ar gyfer trefniadau ad-dalu, sef na ddylai gweithredwr fod yn well nac yn waeth ei fyd yn ariannol o ganlyniad i ddarparu consesiynau teithio gorfodol.
- Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol bod taliadau ad-dalu yn cwrdd â chostau gweithredwyr wrth ddarparu consesiynau teithio gorfodol, ac yn diffinio'r costau hynny.
- Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â thros ba gyfnodau y mae'r taliadau i gael eu cyfrifo, ac ar ba ddyddiadau y mae'n rhaid eu talu.
- Mae rheoliad 6 yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau'n mabwysiadu dull safonol o benderfynu cyfanswm y teithiau a wneir gan y rhai sydd â hawl i gael y consesiynau, ac o benderfynu'r gwerth tocynnol sydd i'w briodoli i'r teithiau hynny.
- Mae rheoliad 7 yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau'n adolygu'r cyfrifiadau a wnânt yn unol â'r dull safonol, o leiaf unwaith bob tair blynedd.
- Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau, wrth fabwysiadu'r dull safonol ac wrth gyfrifo taliadau yn unol â'r dull hwnnw, yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

16. Dyroddwyd canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2001. Mae'n bosibl y dyroddir canllawiau diwygiedig o dan adran 145B(6) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

17. Mae'r pwerau amrywio sydd gan Weinidogion Cymru o dan adran 147 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn cynnwys y pŵer i wneud unrhyw ddiwygiad yn y Ddeddf honno y gallesid bod wedi ei wneud drwy ddiwygio neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth yng Ngorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001 (a ddirymwyd gan Ddeddf 2007). Gellid gwneud yr amrywiadau canlynol yn y consesiwn drwy gyfrwng offeryn statudol er mwyn lleihau'r baich ariannol:

  - Cyfyngu'r teithiau i rai oddi mewn i awdurdod consesiynau teithio yng Nghymru, h.y. oddi mewn i awdurdod lleol, neu rhwng man sydd o fewn ardal yr awdurdod a man sydd y tu allan ond yng nghyffiniau'r ardal honno, er enghraifft rhwng Caerdydd a Chasnewydd, ond nid rhwng Caerdydd ac Abertawe.
  - Pennu'r amseroedd pan fo'r consesiwn ar gael, gan gyfyngu'r teithio i gyfnodau ar wahân i'r cyfnodau brig; hynny yw, dim teithio di-dâl rhwng, er enghraifft 7.30am  a 10.00am a rhwng 4.00 pm a 6.00pm.
  - Cyflwyno pris tocyn nominal. Yr ydym dan rwymedigaeth fodd bynnag, o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, i ddarparu hepgoriad a fydd, o leiaf, yn sicrhau consesiwn o hanner y pris.
  - Cyfyngu ar y dosbarth o wasanaeth y mae'r consesiwn gorfodol yn gymwys iddo – er enghraifft, peidio ag ad-dalu cost consesiynol ar y rhwydwaith coetsys (megis y gwasanaeth TrawsCambria).
  - Cyfyngu neu ddiddymu'r consesiwn i gydymaith person anabl, fel a nodir uchod.

**Sail resymegol**

17. Nod y Gorchymyn arfaethedig yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thrafnidiaeth dysgwyr a theithio consesiynol, gan alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu o ran Cymru yn y meysydd hyn.

18. Er bod cymhwysedd deddfwriaethol eisoes wedi ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran trefniadau i bersonau deithio yn ôl a blaen i'r mannau lle y cânt addysg neu hyfforddiant, nid yw hynny'n cynnwys y defnydd o gerbydau, eu hadeiladwaith a'u hoffer, a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth dysgwyr .

19. Mae'r pwerau cyfredol wedi galluogi Llywodraeth y Cynulliad i basio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 sydd, ymhlith pethau eraill, wedi cynyddu hawl rhai plant mewn ysgolion cynradd i gael cludiant am ddim ac wedi gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn paratoi cod ymddygiad i rai sy'n teithio yn ôl a blaen i'w mannau dysgu. Wrth ymgynghori a chraffu ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, datgelwyd bod llawer yn pryderu ynglŷn â rheoleiddio bysiau a materion diogelwch. Nid oedd modd, fodd bynnag, i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ynghylch y mathau o gerbydau a ddefnyddir i ddarparu trafnidiaeth dysgwyr, na'r nodweddion diogelwch a ddylai fod ynddynt, oherwydd nad oedd ganddo gymhwysedd Arweiniodd hynny at alw trawsbleidiol ymhlith Aelodau'r Cynulliad am bwerau yn y maes hwn, a fydd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiffinio'r trefniadau ar gyfer trafnidiaeth dysgwyr, nad oes modd iddo'u diffinio ar hyn o bryd.

20. Gwnaed nifer o eithriadau o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thrafnidiaeth dysgwyr, sy'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â defnyddio cerbydau ar gyfer trafnidiaeth dysgwyr ac adeiledd ac offer y cerbydau, ac ynglŷn â diogelwch trafnidiaeth. Mae'r GCD hwn yn cynnig naddu allan o'r eithriadau hynny agweddau sy'n gyfyngedig i drefniadau trafnidiaeth dysgwyr, er mwyn galluogi'r Cynulliad

Cenedlaethol i ystyried deddfu hefyd ynghylch diogelwch y cerbydau a ddefnyddir. Byddai hyn, er enghraifft, yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i wneud yn ofynnol bod y cerbydau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer trafnidiaeth dysgwyr yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch uchaf a/neu bod ganddynt briodoleddau penodol (e.e. cerbydau unllawr gyda gwregysau diogelwch ac chyfleuster teledu cylch cyfyng). Byddai rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy ailddiffinio'r eithriad hwn yn ei alluogi i ymateb i bryderon penodol yng Nghymru.

21. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn diogelu cynaliadwyedd hirdymor y cynllun tocynnau teithio consesiynol hefyd yn ceisio cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran teithio consesiynol. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried deddfu i arfer rheolaeth fwy cadarn ar y cynllun. Er enghraifft, gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i ganiatáu i Lywodraeth y Cynulliad negodi yn uniongyrchol gyda'r gweithredwyr ynglŷn ag ad-dalu costau'r cynllun a/neu weinyddu'r cynllun yn uniongyrchol. Nid yw'r mecanwaith presennol, sef ad-dalu i weithredwyr drwy'r awdurdodau lleol, yn llwyddo i sefydlu cymhellion digonol i reoli'r costau, gan fod yr awdurdodau lleol yn cael ad-daliad llawn gan Lywodraeth y Cynulliad, o'r holl gostau a wynebir ganddynt hwy.

22. Byddai'r cymhwysedd a ddarperir gan yr GCD hwn hefyd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried diwygio fframwaith deddfwriaethol y cynllun er mwyn newid y trefniadau ad-dalu cyfredol ar gyfer awdurdodau lleol. O dan eu hamrediad presennol o bwerau gweithredol, caniateir i Weinidogion Cymru negodi ad-daliadau yn uniongyrchol gyda'r gweithredwyr bysiau lleol (drwy weithredu fel asiantwyr yr awdurdodau lleol). Gall hynny, fodd bynnag, arwain at wrthdrawiad buddiannau, gan fod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru eu hunain benderfynu apelau. Ar hyn o bryd, mae pŵer gan Weinidogion Cymru i reoleiddio'r broses unwaith y bydd cais wedi ei wneud iddynt o dan adran 150(6)(c) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Fodd

bynnag, mae'r mecanweithiau sy'n rhagflaenu ystyried apêl wedi eu pennu yn Neddf Trafnidiaeth 2000, ac nid oes pwerau gan Weinidogion Cymru i'w newid. Gallai Mesur a gynigir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol, er enghraifft, ddisgrifio'r broses apelau yn ei chyfanrwydd.

**Cwmpas**

23. Cynigir bod Mater yn cael ei fewnosod ym Maes 10: priffyrdd a thrafnidiaeth o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i deddfu ynglŷn â theithio consesiynol drwy gyfrwng Mesur Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, bwerau ehangach i weinyddu'r cynllun yn uniongyrchol a phwerau i benderfynu ar gytundebau gyda Gweithredwyr Cyfranogol. (Diffinnir Gweithredwyr Cyfranogol Gwasanaethau Cymwys gan Orchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Cymru) 2002, o Dan Ddeddfau Trafnidiaeth 1985 a 2000. Cwtogir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol (mewn perthynas â theithio consesiynol) drwy gyfyngu'r cymhwysedd o ran teithiau rheilffordd i'r wasanaethau hynny yng Nghymru a ddarperir o dan gytundeb masnachfraint y mae Gweinidogion Cymru'n barti ynddo – sy'n golygu gwasanaethau lleol a rhanbarthol a ddarperir ar hyn o bryd o dan fasnachfraint Trenau Arriva Cymru, ond heb gynnwys y gwasanaethau o dan y fasnachfraint honno a weithredir yn gyfan gwbl yn Lloegr. Mae hyn hefyd yn allgáu'r gwasanaethau rhyng-ddinesig sy'n gweithredu yng Nghymru ac a ddarperir gan First Great Western, Virgin a Cross-Country.

24. O ran trafnidiaeth dysgwyr, nid drwy fewnosod Mater y rhoddir cymhwysedd, ond yn hytrach drwy ddiwygio Rhan 2 (Eithriadau i Faterion)o Atodlen 5, paragraff A1(2) ac (14). Bydd cwmpas y diwygiadau i'r eithriad yn gyfyngedig i drafnidiaeth dysgwyr fel y'i diffinnir ym Mater 5.10 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys tacsis a cherbydau hurio preifat (i'r graddau y gellir cynnwys yn yr amodau trwyddedu fesurau

diogelwch ychwanegol mewn perthynas â tacsis a cherbydau hurio preifat eraill, a ddefnyddir dan gontract gydag awdurdod lleol ar gyfer cludo i ysgolion). Mae’r pŵer i reoleiddio *trafnidiaeth dysgwyr* yn gyfyngedig i awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau neu gyrff eraill sy’n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant. Byddai hyn yn cynnwys awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu ysgolion ac ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, ni fyddai’n cynnwys trefniadau teithio a wneir gan rieni neu gan y myfyrwyr eu hunain, nac ychwaith gerbydau sy’n ymweld.

25. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn ceisio datganoli cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â safonau technegol cerbydau sy’n gymwys ledled Prydain Fawr. Bydd y materion hynny yn parhau i gael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU, a fydd yn gweithredu fwyfwy o fewn fframwaith cyfraith Ewrop. Byddai’n rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth a ddygid ymlaen gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol gydweddu â’r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer diogelwch cerbydau o dan gyfraith y DU a'r UE, yn ogystal ag egwyddorion cyffredinol y Cytuniad sy'n ymwneud â gweithredu’r farchnad fewnol.

26. Mae’r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â *diogelwch trafnidiaeth* wedi ei gyfyngu i gludo oedolion sy’n goruchwylio mewn cerbydau a ddefnyddir yn unol â threfniadau trafnidiaeth dysgwyr. Mae hyn yn allgáu cymhwysedd ym mhob agwedd arall ar ddiogelwch trafnidiaeth, megis terfysgaeth.

**Terfynau Daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

27. Mae adran 94 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwahardd Mesurau'r Cynulliad rhag cael effaith ag eithrio o ran Cymru. Golyga hyn na fydd modd i’r Cynulliad Cenedlaethol, drwy Fesur, roi i Weinidogion Cymru, i awdurdodau lleol Cymru, nac i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall

swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru. Nid yw darpariaeth Mesur Cynulliad yn gyfraith os yw y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

28. Mae unrhyw ddarpariaeth mewn Mesur sy'n gwneud darpariaethau'r Mesur hwnnw neu unrhyw fesur arall yn effeithiol, neu’n galluogi gorfodi darpariaethau'r Mesur hwnnw neu unrhyw Fesur arall, neu sydd fel arall yn gysylltiedig â darpariaeth o'r fath mewn Mesur neu'n ganlyniadol iddi, hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Swyddogaethau Gweinidog y Goron**

29. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hunan yn addasu nac yn tynnu ymaith unrhyw swyddogaethau sy’n perthyn i Weinidog y Goron. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaniateir i'r Cynulliad newid, drwy gyfrwng Mesur, swyddogaethau Gweinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a ddichon effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir â'r Adran briodol o Lywodraeth y DU a cheisir cytundeb ar unrhyw gynigion i dynnu ymaith neu i addasu'r swyddogaethau hynny.

**Y Casgliad**

30. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth dysgwyr a theithio consesiynol, yn nhermau'r cynnig am Orchymyn drafft a atodir.

Ieuan Wyn Jones
Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Dyddiad